



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Yr Athrofa
Institute of Education
Addysg i Gymru Education for Wales

LLAWLYFR MODWL

ECAD6010C

**Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgeg: Ymchwilio
i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?**

**BA ADDYSG GYNRADD
gyda Statws Athro Cymwysedig**

LEFEL 6

YR ATHROFA

2023-2024

1. Manylion Cysylltu

Os bydd angen trafod rhywbeth sy'n ymwneud â'r modwl arnoch, cysylltwch â:

- Arweinydd y Modwl: Dr Julia Holloway: j.holloway@uwtsd.ac.uk
- Dr Sioned Hughes: s.v.hughes@uwtsd.ac.uk

2. Ein disgwyliadau

Gobeithiwn y byddwch yn mwynhau'r modwl a'r cyfleoedd sydd gennych i gynnal ymchwil annibynnol ar destun o ddiddordeb personol.

Dylech:

- Wneud defnydd da o gyfleusterau ac adnoddau'r Brifysgol i'ch helpu gyda'ch gwaith ymchwil
- Mynychu pob darlith a thiwtorial
- Paratoi yn drwyadl a chyfrannu'n llawn mewn sesiynau
- Cadw cofnod o'ch presenoldeb mewn tiwtorialau
- Cynnal ymchwil gyda sylw dyladwy i foeseg
- Cyflwyno aseiniadau erbyn y dyddiad terfyn
- Darllen Rheoliadau Myfyrwyr y Brifysgol.

3. Amcanion a Deilliannau Dysgu

AMCANION

- I arfogi darpar-athrawon â'r sgiliau a'r agweddau ymchwil sydd eu hangen i gymryd agwedd sgeptigol wrth ddadansoddi, gwerthuso a syntheseiddio ystod o safbwyntiau a fframweithiau damcaniaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n berthnasol i addysgu a dysgu effeithiol.
- Galluogi darpar-athrawon i fod yn ymchwilwyr moesegol sy'n hunangyfeiriedig wrth ddylunio, gweithredu a gwerthuso ymchwil sy'n agos at ymarfer i drawsnewid ymarfer personol a hyrwyddo datblygiad proffesiynol mewn cymuned ymholi.

DEILLIANNAU DYSGU

Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar-athro allu dangos y gallu i:

- gynllunio a chymhwyso methodolegau ymchwil priodol sy'n dangos dealltwriaeth feirniadol o natur ymchwil addysgol: bod yn ymchwilydd medrus;
adfyfrio'n feirniadol ar le canolog arfer moesegol o fewn ymchwil yn y ddosbarth, ac arddangos dealltwriaeth fanwl o'i egwyddorion: bod yn ymchwilydd moesegol;
- dangoswch ymreolaeth wrth gynnal ymholiad agos-at-arfer i drawsnewid agwedd ar arfer bersonol sy'n effeithio'n bositif ar ddeilliannau dysgwyr: dangoswch trylwyredd wrth gymhwyso sgiliau ymchwil priodol;
- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol dystiolaeth empirig berthnasol, gan gynnwys llenyddiaeth addysg a dogfennau polisi, i nodi cysyniadau allweddol a defnyddio hyn i ffurfio dulliau addas i drawsnewid arfer dosbarth;
- gwerthuso dystiolaeth ymchwil yn feirniadol, gan ddangos barn gadarn am ddata i gefnogi penderfyniadau addysgegol a rhannu mewn cyd-destun proffesiynol: bod yn rhan o broffesiwn sy'n seiliedig ar ymholi.

Cysylltiad â'r pedwar diben yn Cwricwlwm i Gymru 2022:

Er mwyn i blant a phobl ifanc ddatblygu:	Y cysylltiad yn y modiwl hwn: Bydd darpar athrawon yn gallu:
Yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu drwy gydol eu hoes.	Gwneud defnydd o'r dystiolaeth empirig gyfredol a chyfrannu at y sylfaen ymchwil er mwyn codi safonau a dyheadau'r holl ddysgwyr.
Yn gyfranwyr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith.	Defnyddio ymchwil agos-at-arfer i ddarparu ystod o gyfleoedd dysgu creadigol sy'n hyrwyddo ymreolaeth ac sy'n berthnasol i fywydau'r dysgwyr.
Yn ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd.	Mabwysiadu rôl yr athro proffesiynol/athrawes broffesiynol o ran deall sgiliau cymhleth ymarfer moesegol.
Unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.	Cymhwyso dealltwriaeth o ddamcaniaethau ac ymchwil sy'n ymwneud â lles a datblygiad, i arfer personol.

Dangos tystiolaeth o ymchwil, cael eich llywio ganddo a bod yn barod ar ei gyfer yw un o'r pedair egwyddor ym Mhartneriaeth Dysgu Proffesiynol Yr Athrofa ac felly mae datblygu sgiliau ymchwil yn ganolog i'r rhaglenni Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA). Mae'r gwaith o ddynodi datblygiad a chynnydd sgiliau ymchwil trwy'r rhaglenni AGA wedi'i fapio ar strwythur modwlar y rhaglen.

Yn rhyngwladol, amgylcheddau ysgol sy'n seiliedig ar ymholi (neu sy'n gynhyrchu o ran ymchwil) yw nodwedd amlycaf systemau addysg sy'n gwneud yn arbennig o dda. Er mwyn bod ar eu mwyaf effeithiol, mae angen i athrawon ac addysgwyr athrawon:

- **ymgysylltu ag** ymchwil ac ymholi – golyga hyn gadw'n gyfredol â'r datblygiadau diweddaraf o fewn arfer addysgol;
- **cymryd rhan mewn** arfer sy'n canolbwyntio ar ymholi – golyga hyn bod â'r gallu, y cymhelliad, yr hyder a'r cyfle i ymgymryd ag ymchwil yn y dosbarth.

Daeth ymholiad BERA/RSA (2014) i'r casgliad fod proffesiwn llythrennog o ran ymchwil yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr, a bod gallu ymchwil athrawon yn hanfodol i greu system addysg hunanwella. Yn ôl yr adroddiad mae angen cynnal ffocws ar arfer sy'n seiliedig ar ymholi ... trwy gydol gyrfaedd proffesiynol athrawon, fel bod arloesi disgybledig ac ymholi cydweithredol yn cael eu hymgorffori ym mywydau ysgolion neu golegau nes mai dyna yw'r ffordd arferol o addysgu a dysgu, yn hytrach na'r eithriad (BERA/RSA, 2014¹).

Yn ychwanegol, mae ymchwil wedi'i nodi'n glir o fewn y Safonau Proffesiynol diwygiedig i athrawon.

“Ceir ymgysylltu strwythuredig mewn cymuned ymchwil weithredu a thystiolaeth o arfer sy'n cael ei llywio gan waith darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol” (LIC, 2017a²).

Bydd yn ofynnol i athrawon ddangos sut maen nhw'n bodloni'r safon hon trwy gydol eu gyrfaedd. Mae Llywodraeth Cymru yn dyheu i'r proffesiwn addysgu fod yn “ymgymryd â gwaith ymchwil, yn hyddysg ac yn dysgu o ragoriaeth” (LIC, 2017b³). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn gofyn i athrawon ddefnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael i ddarparu profiadau dysgu ystyrlon ar gyfer eu disgyblion. Mae Donaldson (2015, t.71) yn datgan fod addysgeg gadarn “...yn galw am athrawon o ansawdd uchel sydd â dealltwriaeth drylwyr o ddulliau addysgu a'r rhesymau drostynt yn ogystal â chynnwys yr addysgu”.

Trwy gydol y modylau BA Addysg, mae gwaith Orchard a Winch (2015)⁴ wedi'i addasu a'i grynhoi yn bedair ymagwedd ymchwil. Mae'r rhain yn cael eu hegluro gan ddefnyddio enghreifftiau o wybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau sy'n amlygu'r ymagwedd (gweler Tabl 1 isod).

¹ BERA/RSA (2014) Research and the Teaching Profession: Building the capacity for a self-improving education system. London: BERA.

² Llywodraeth Cymru (2017a) Y Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth. Caerdydd: LIC. <https://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170901-professional-standards-for-teaching-and-leadership-en.pdf>

³ Llywodraeth Cymru (2017b) Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Caerdydd: LIC.

⁴ Orchard J. & Winch C. (2015) *Philosophical Perspectives on Education Policy. What training do teachers need? Why theory is necessary to good teaching*. IMPACT no.22

Yn y modwl hwn, cewch gyfle i gynnal prosiect ymchwil ar raddfa fach wedi'i seilio ar ddull astudiaeth achos yn rhan o Brofiad Dewisol. Bydd hyn yn cynnwys dylunio, cynnal a gwerthuso ymchwil mewn cyd-destun ystafell ddosbarth wedi'i seilio ar agwedd ar eich ymarfer bersonol.

Ymchwilio i'r Dysgu yn rhan o'r Profiadau Dewisol

Mae'r profiadau dewisol yn gyfle i ddarpar athrawon ddatblygu'n broffesiynol mewn lleoliad ysgol ac mae'n ffocysu ar gael gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach o agwedd sy'n gysylltiedig â maes/pwnc neu thema o ddiddordeb personol.

Mae'r profiadau dewisol yn atgyfnerthu'r egwyddor bod yr holl randdeiliaid, sef: darpar athrawon, staff ysgol, staff Yr Athrofa a disgyblion yn cyfrannu at, ac yn adeiladu ar, bartneriaethau presennol, gan gyfrannu at y daith ddiwygio genedlaethol a phrofi ffyrdd newydd o gydweithio.

Ar ddechrau Hydref 2023, bydd y darpar athro'n dewis maes diddordeb i ymchwilio iddo yn eu harfer addysgu. Unwaith y bydd hwn wedi'i gymeradwyo bydd rhaid i'r darpar athro ysgrifennu cynnig ymchwil yn adnabod y rhesymeg tu ôl i'w rheswm dros ddewis ffocws eu hymchwiliad.

Yn ystod yr ymweliad Profiadau Dewisol, dyrennir amser ar gyfer gwahanol fathau o weithgaredd i sicrhau bod gan bob darpar athro ystod o brofiadau o fewn eu maes diddordeb. Yn rhan o'r profiad, rhoddir cyfle i ddarpar athrawon gymhwyso ystod o ddulliau ymchwil i ymchwilio i'w dewis faes diddordeb.

Ymagwedd	Gwybodaeth, sgiliau, dealltwriaethau ac ymddygiadau
<i>Bod yn sgeptigol</i>	Deall tystiolaeth empirig mewn maes dadleuol: Bod yn ymwybodol o'r gyrwyr gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol o blaid 'tystiolaeth', a goblygiadau 'tystiolaeth'.
<i>Bod yn foesegol</i>	Deall sylfaen foesegol ymholi mewn gweithle cymhleth: - Gwybod egwyddorion moesegol ymchwil; - Deall safleoldeb (<i>positionality</i>) mewn ymchwil; - Deall eich credoau a'ch tybiaethau eich hun am y byd.
<i>Bod yn ymchwilydd medrus</i>	Deall egwyddorion ymchwil y gwyddorau cymdeithasol, a gwybod y gwahanol fathau o ddulliau a ddefnyddir a pham: - Deall dulliau ansoddol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dulliau meintiol a natur/statws canfyddiadau; - Deall dyluniadau pragmatig. Deall sut i adeiladu dadl ar sail tystiolaeth a gwarant mewn ymchwil addysgol: - Defnyddio sgiliau darllen beirniadol; - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'dystiolaeth'. Gwerthfawrogi'n feirniadol faint o gefnogaeth a all fod ar gael neu beidio ar gyfer theorïau poblogaidd a dylanwadol mewn meysydd megis datblygiad plant a natur dysgu: - Bod yn 'sgeptigol' eich agwedd at 'arloesi' (polisi ac ymarfer) neu'r 'peth mawr nesaf'. Deall sut i ddefnyddio tystiolaeth empirig yn eich ystafelloedd dosbarth a gwerthuso ei heffeithiolrwydd: - Bod yn glir am yr hyn a fwriedir a pham; - Diffinio'r paramedrau ar gyfer gwerthuso effeithiolrwydd.
<i>Bod yn rhan o broffesiwn ymholgar</i>	Cyfrannu i gymuned o ymarferwyr ymholgar: - Gwybod a ddylid, pryd a sut i rannu deilliannau ymholiad dosbarth; - Cyfrannu'n rhagweithiol i amrywiaeth o gynulleidfaoedd; - Mynd ati i ymwneud ag ymholi a chanfyddiadau pobl eraill.

5. Cynnwys Modwl

Bod yn Ymchwilydd Moesegol	
Bod yn Ymchwilydd Medrus	
Bod yn Ymchwilydd Sgeptigol	
Bod yn rhan o Broffesiwn Ymholgar	
Gweithgaredd pontio (cyfnewid gwybodaeth ddeallusol a thrwy brofiadau)	

Dyddiad	Cynnwys	Amser
Dydd Llun 9 Hydref 2023	Cyflwyniad i'r modwl a'r Profiad Dewisol Paratoi i ysgrifennu y Cynnig Ymchwil	9-11
Dydd Llun 6 Tachwedd 2023	Sesiwn 1: Cyflwyniad i'r Modiwl a'r fanyleb asesu Rhannu y Cynnig Ymchwil Mynd dros ymagweddau ymchwil Sesiwn 2: Cyflwyniad i 'Astudiaeth Achos' fel dull dylunio ymchwil	9-11 11-1
Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2023	Sesiwn 3: Ailedrych ar foeseg Safleoldeb Sesiwn 4: Darllen yn feirniadol – yr adolygiad llenyddiaeth	11-1 2-4
Dydd Iau 9 Tachwedd 2023	Sesiwn 5: Y Cwestiwn Ymchwil Sesiwn 6: Dylunio Ymchwil: Dechrau ystyried dulliau ymchwil: Dulliau Meintiol ac Ansoddol Math o ddata byddech yn ystyried ar brofiad dewisol	9-11 2-4
Dydd Llun 13 Tachwedd 2023	Sesiynau 7, 8 a 9: Methodoleg Dewis Dulliau: Arsylwi, Cyfweliadau Dylunio Offer Ymchwil	9-4

Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2023	Sesiwn 10: Dadansoddi a chyflwyno'r data Sesiwn 11: Modelau Adfyfyrio	9-11 2-4
Dydd Iau 16 Tachwedd 2023	Sesiwn 12: Cwblhau'r ffurflen foeseg Sesiwn 13: Paratoi ar gyfer y Profiad Dewisol/cyflwyno dyluniad ymchwil	9-11 2-4
Dydd Llun 27 Tachwedd – Dydd Gwener 1 Rhagfyr	Profiad Dewisol	
Dydd Llun 4 Rhagfyr 2022	Sesiwn 14: Adfyfyrio ar y Profiad Dewisol Sesiwn 15: Ailedrych ar fanyleb yr aseiniad	9-11 11-1
Dydd Mawrth 9fed Ionawr 2024	Cyflwyno'r Aseiniad	
Llwybr SAC	Dadansoddi a gwerthuso data yn unigol Gwneud argymhellion priodol i drawsnewid agwedd ar addysgu a fydd yn effeithio'n gadarnhaol ar y dysgu gan ddisgyblion.	
Llwybr SAC	Dangos dealltwriaeth feirniadol o natur gwybodaeth a gynhyrchir a gwerth neu ddiffyg gwerth ei lledaenu'n ehangach drwy rannu canfyddiadau a phroses ymchwil mewn lleoliad proffesiynol e.e. grŵp cymheiriaid, cyfarfod staff, Cyfarfod Llywodraethwyr neu gyflwyno mewn cynhadledd.	
Llwybr SAC	Mynd â chanlyniadau'r ymchwil ymlaen i'r Profiad Addysgu Proffesiynol a defnyddio adfyfyrio ar effaith i ychwanegu tystiolaeth i'r Safonau Proffesiynol ar gyfer SAC e.e. ADDYSGEG: Hyrwyddo Dysgu DYSGU PROFFESIYNOL: Darllen ehangach a chanfyddiadau ymchwil ARLOESI: Gwerthuso effaith newidiadau i arfer	

6. Tasgau Asesu a chyfarwyddyd

CÔD Y MODWL	TEITL Y MODWL	DULL ASESU
-------------	---------------	------------

ECAD6010C	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?	Gwaith cwrs (100%): Aseiniad Ysgrifenedig Unigol Prosiect Ymchwil: Astudiaeth Achos yn seiledig ar y Profiad Dewisol (cyfwerth â 5000 o eiriau (4,500 am yr aseiniad ysgrifenedig ac atodiad cyfwerth â 500 o eiriau). Astudiaeth achos archwiliadol sy'n codi o arfer (sylwi) yr ymchwilir iddo ymhellach drwy offer ymchwil a nodir. Daw'r astudiaeth i ben drwy nodi ymyrraeth y gellir ei threialu drwy gydol y Profiad Addysgu Proffesiynol (PAP) gan ddangos tystiolaeth ohoni drwy adfyfrio yn y Pasbort Dysgu Proffesiynol (safonau dysgu proffesiynol). Cyflwyno: 9/01/2024 (amser terfyn 23:59)
-----------	---	---

Gweler y ffurflen Manyleb Asesu (ar Moodle) am wybodaeth a chyfarwyddyd mwy manwl ar asesu.

7. Rhestr Ddarllen		
Cod Modwl	y	ECAD6010C
Teitl y Modwl	Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio'r Dysgu: beth sut a pham rwy'n addysgu?	
Dosbarth	Rhestr Ddarllen	Electroneg
Hanfodol	<u>Bruce, T., Louis, S. & McCall, G. (2014) <i>Observing Young Children</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Hanfodol	<u>Cohen L. and Manion L. (2011) <i>Research methods in education</i> 7th ed., London ; New York: Routledge</u>	☒
Hanfodol	<u>Constantinos, N. (2006) Review: Punch, K. (2005). <i>Introduction to Social Research-Quantitative & Qualitative Approaches</i>. Forum, qualitative social research, 7(2), pp.Forum, qualitative social research, 2006-04-01, Vol.7 (2)</u>	☒
Hanfodol	<u>Dudley, P. (2015) <i>Lesson study: professional learning for our time</i>. Routledge.</u>	☒
Hanfodol	<u>May, T. & Perry, B. (2011) <i>Social Research and Reflexivity: Content, Consequence and Context</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Hanfodol	<u>McNiff, J. (2012) <i>Action research: Principles and practice</i>. London: Routledge.</u>	☒

Hanfodol	<u>Noffke, S. E. & Somekh, B. (eds.) (2009) <i>The Sage Handbook of Educational Action Research</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Hanfodol	<u>MacRae C. and Jones, L. (2020) A philosophical reflection on the “Leuven Scale” and young children’s expressions of involvement, International Journal of Qualitative Studies in Education. International Journal of Qualitative studies in Education. Routledge.</u>	☒
Hanfodol	Danby, S.J., Ewing, L. & Thorpe, K.J. (2011) The novice researcher: interviewing young children. <i>Qualitative Enquiry</i> , 17(1), pp. 74-84.	
Hanfodol	Coenders, FGM & Verhoef, NC (2019) 'Lesson Study: professional development (PD) for beginning and experienced teachers', <i>Professional development in education</i> , vol. 45, no. 2, pp. 217-230	
Hanfodol	Denscombe, M. (2014) <i>Good Research Guide For Small-Scale Social Research Projects</i> 5th ed., McGraw-Hill Education.	
Pellach	<u>Alderson, P. & Morrow, V. (2011) <i>The Ethics of Research with Children and Young People: A Practical Handbook</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Pellach	<u>Baxter, P. & Jack, S. (2015) <i>Qualitative Case Study Methodology: Study Design and Implementation for Novice Researchers</i>. Qualitative report, pp. Qualitative report, 2015–01-14.</u>	☒
Pellach	<u>Bell, J. & Waters, S. (2018) <i>Doing Your Research Project: A guide for first-time researchers</i>, 7th edition. Maidenhead: Open University Press.</u>	☒
Pellach	<u>Israel, M (2014) <i>Research Ethics and Integrity for Social Scientists: Beyond Regulatory Compliance</i>. Washington: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Pellach	<u>Lewis, V., Kellett, M., Robinson, C., Fraser, S. & Ding, S. (2004) <i>The Reality of Research with Children and Young People</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒ Intro and Chapter 1
Pellach	<u>Alderson, P. & Morrow, V., 2011. <i>The ethics of research with children and young people : a practical handbook</i> 2nd ed., London: SAGE.</u>	☒
Pellach	<u>Thomas, G. (2013) <i>How to do your research project: A guide for students in education and applied social sciences</i>. London: Sage Publications Ltd.</u>	☒
Pellach	<u>Evan P. A., Michael I. N. & Samuel R. S. (2012) <i>Racial Color Blindness: Emergence, Practice, and Implications</i>. <i>Current directions in psychological science: a journal of the American Psychological Society</i>, 21(3), pp.205–209.</u>	☒
Pellach	Broekkamp, Hein & Van Hout-Wolters, Bernadette. (2007) The gap between educational research and practice: A literature review, symposium, and questionnaire. <i>Educational Research and Evaluation</i> . 13. 10.1080/13803610701626127.	
Pellach	Warwick, P., Vrikki, M., Vermunt, J.D., Mercer, N. & von Halem, N. (2016) Connecting observations of student and teacher learning: an examination of dialogic processes in Lesson Study discussions in mathematics. <i>ZDM Mathematics Education</i> (2016) 48: 555.	
Pellach	Cajkler, W., Wood, P., Norton, J., Pedder, D. & Xu, H. (2015) Teacher perspectives about lesson study in secondary school departments: a collaborative vehicle for professional learning and	

	practice development, Research Papers in Education, Vol.30, Issue 2	
Tasgau Cyfeiriedig		
1	Özdemir, Soner Mehmet, 2019. Implementation of the Lesson Study as a Tool to Improve Students' Learning and Professional Development of Teachers. Participatory Education Research, 6(1), pp.36–53.9 (Sesiwn 1)	☒
2	Dudley, P. (2014) Lesson study: a handbook @lessonstudy.co.uk (Sesiwn 2)	☒
4	British Educational Research Association [BERA] (2018) Ethical Guidelines for Educational Research, fourth edition, London. https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethicalguidelines-for-educational-research-2018 (Sesiwn 5)	
4	<u>Blackburn, C. (2018) Researching with young and developmentally young children: Ethical considerations, dilemmas and compromises. In BERA Bites: Early Childhood, Issue 1.</u> (Sesiwn 5)	☒
4	David, M., Edwards, R. & Alldred, P. (2001) Children and School-based Research: 'informed consent' or 'educated consent'? In British Educational Research Journal, Vol. 27, No. 3, pp.347-365 (Sesiwn 5)	
5	Kawulich, B. (2012) Collecting data through observation. In Wagner, C., Kawulich, B. & Garner, M. (eds.) <i>Doing Social Research: A Global Context</i> . McGraw Hill; pp150-160. https://www.researchgate.net/publication/257944783_Collecting_data_through_observation NEU Forman,G. &Hall,E. (2005) Wondering with Children: The Importance of Observation in Early Education. ECRP Vol. 7, No. 2. (Sesiwn 7)	
6	Sachs, J. (2010) Learning to improve or improving learning: the dilemma of teacher development (Sesiynau 9/10)	

Gwefannau

BERA <https://www.bera.ac.uk/researchers-resources/publications/ethical-guidelines-for-educational-research-2018>

EWC <https://www.ewc.wales/site/index.php/en/policy-hub/practitioner-research/research-methods.cfm>

National Foundation for Educational Research (NFER) <http://www.nfer.ac.uk/schools/developing-young-researchers/how-to-choose-your-research-methods.cfm>

HWB – Professional learning: Schools as Learning Organisations <https://hwb.gov.wales/professional-development/schools-as-learning-organisations/>
